



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas /  
MS Teams

Dydd Mawrth, 27 Mehefin 2023 am 10.00 am

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cyngorydd(wyr)**

P M Black  
D H Jenkins  
M W Locke

**Y Cyngorydd(wyr)**

P R Hood-Williams  
M Jones

**Y Cyngorydd(wyr)**

L James  
J W Jones

**Swyddog(ion)**

Stuart Davies  
Bob Fenwick  
Rachel Percival

Pennaeth Priffyrdd a Chludiant  
Arweinydd Grŵp Cynnal a Chadw Priffyrdd  
Swyddog Craffu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cyngorydd(wy): B J Rowlands

---

**1 Cadarnhau Cynullydd**

Cadarnhawyd y Cyngorydd Chris Holley fel Cynullydd y Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid ar gyfer 2023-24.

**2 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

**3 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim.

**4 Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

**5 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd

**6 Atgyweirio Ffyrdd**

Rhoddodd Bob Fenwick a Stuart Davies drosolwg o drefniadau presennol ar gyfer atgyweirio ffyrdd. Roedd trafodaethau'n canolbwyntio ar y pwyntiau canlynol -

- Mae gan Abertawe tua 1100 cilomedr o ffyrdd a tua 1600 cilomedr o lwybrau cerdded.
- Yr ôl-groniad presennol a gyfrifwyd ar gyfer ffyrdd yw tua £70m ac er mwyn cynnal cyflwr sefydlog, byddai angen gwario £7-8 miliwn yn flynyddol.
- Rydym yn ystyried ailenwi'r rhaglen PATCH oherwydd dryswch posib rhwng gwaith atgyweirio a chynnal a chadw rheolaidd a chynlluniedig.
- Adroddir am tua 7000-8000 o dyllau yn y ffordd i'r cyngor bob blwyddyn.
- Mae'r addewid tyllau yn y ffordd presennol yn mynd y tu hwnt i rwymedigaeth statudol ac yn canolbwyntio ar adroddiadau gan y cyhoedd.
- Mae arwynebau wedi'i difrodi yn ystod y gaeaf oherwydd tymereddau ymylol sy'n gallu achosi difrod i'r haen uchaf. Mae rhaglen ychwanegol ar waith ar hyn o bryd i ymdrin â hyn.
- Rheolir y rhaglen cynnal a chadw gynlluniedig gan system sgorio sy'n ystyried peirianeg, barn, cyflwr, damweiniau, amllder bysus, mynediad, agosatrwydd at ysgolion neu ysbytai, dosbarthiad y ffordd a nifer y cerbydau bob dydd. Crëwyd ôl-groniad oherwydd y difrod yn ystod y gaeaf. Mae tua thraean o'r ffyrdd yn Abertawe ar y rhestr hon.
- Mae gwaith ataliol yn rhatach ac yn golygu bod ffyrdd presennol yn para am gyfnod hwy ac felly gall fod yn fwy effeithiol. Mae'n rhaid bod hwn yn gytbwys â galw'r cyhoedd am atgyweiriadau.
- Mae perthnasoedd gyda chontractwyr yn parhau i fod yn gadarnhaol.
- Mae heriau yn y dyfodol yn cynnwys newid yn yr hinsawdd a fydd yn golygu mwy o aeafau ymylol, allyriadau carbon o ddeunyddiau ailwynebu ffyrdd, pwysau cynyddol cerbydau trydan a difrod i ffyrdd o ganlyniad i fesurau tawelu traffig.
- Mae gan ddeunyddiau atgyweirio tyllau yn y ffordd gyfradd lwyddiant o tua 96% o ran bod yn barhaol.
- Pryd caiff gwaith ei wneud, caiff pob swydd ei asesu'n unigol i benderfynu a oes angen cau ffyrdd, rheoli traffig, trefnu dargyfeiriadau etc.
- Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu dyraniadau i siroedd yn seiliedig ar raniad canrannol sefydlog.
- Rhoddwyd clod i waith y timau atgyweirio ffyrdd gan fod rhannau eraill o'r wlad hefyd yn dioddef o ddirywiad yng nghyflwr ffyrdd.

## 7 Llythyrau

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Panel am gyfuniad posib y Panel Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid a'r Panel Craffu Datblygu ac Adfywio. Caiff hwn ei gyflwyno yn ystod cyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ym mis Gorffennaf a dyma fydd cyfarfod olaf y Panel Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.11am.

**Cadeirydd**